Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Treth y Cyngor

## Cyflwyniad

Mae eich cyngor lleol yn gyfrifol am bennu eich bil a chasglu'r taliad. I wneud hyn, rhaid i'r cyngor gweithio o fewn y gyfraith, y rheoliadau a chanllawiau perthnasol y llywodraeth. Os credwch nad yw'r cyngor wedi dilyn y gyfraith, y rheoliadau neu'r canllawiau, efallai y byddwn yn gallu helpu gyda'ch cwyn.

## Yr hyn gallwn ei wneud

Gallwn:

- edrych ar gwynion bod y cyngor wedi methu rhoi gwybod ichi'n iawn am fand eich eiddo, eich bil, eich hawl i apelio neu i gymryd mesurau cyn mynd i'r llys;
- edrych i weld a ydyw'r cyngor wedi cymryd mesurau gorfodi teg a thrwy ddilyn y rheolau;
- ystyried materion fel oedi afresymol yn gweithredu, methu cydnabod eich apêl, methu cadw cofnodion priodol, methu cyfathrebu'n iawn neu wneud camgymeriadau yn prosesu taliadau.

## Yr hyn nad ydym yn gallu ei wneud:

Ni allwn:

- prisio eich eiddo i bwrpas treth y cyngor;
- newid y band y bydd eich eiddo'n disgyn iddo;
- newid gwerth eich band treth y cyngor;
- addasu eich bil neu eich taliadau;

- atal y cyngor rhag cymryd mesurau gorfodi yn eich erbyn;
- dweud wrth y cyngor sut i gasglu dyled sydd heb ei thalu gennych ar ôl i orchymyn dyled gael ei gymeradwyo;
- fel arfer, edrych ar gŵyn lle mae neu lle oedd hawl i apelio yn erbyn eich bil treth y cyngor i Dribiwnlys Prisio Cymru.

## Materion i gadw mewn cof

Treth gyffredinol yw treth y cyngor i helpu i dalu am wasanaethau lleol. Ni all y cyngor gynnig gostyngiad i chi ar eich bil am nad ydych efallai'n elwa'n bersonol o rai gwasanaethau lleol.

Mae eich band treth y cyngor yn cael ei bennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Os credwch fod y band yn anghywir, dylech gysylltu â'ch swyddfa brisio leol, mae eu manylion ar gael yn https://www.voa.gov.uk/

Mae gennych hawl i apelio'n gyfreithiol yn erbyn nifer o benderfyniadau treth y cyngor. Os credwch fod eich bil yn anghywir neu mai nid chi sy'n gyfrifol am y bil, dylech ysgrifennu at y cyngor i ddechrau. Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys, efallai y bydd gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y cyngor i **Dribiwnlys Prisio Cymru**. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.valuation-tribunals-wales.org.uk/

## Gwybodaeth bellach

Gallwch dderbyn cyngor annibynnol di-dâl ar apelio yn erbyn eich bil treth y cyngor gan eich Cyngor ar Bopeth leol, mae eu manylion ar gael yn www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

Mae mwy o wybodaeth fanwl am dreth y cyngor ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/counciltax/cy

Efallai y bydd gwefan y cyngor ei hun hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gweinyddir treth y cyngor yn eich ardal leol.

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei Ddarllen

Treth Cygnor